



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) (Rhif 2) 2022

DYDDIAD 29 Ebrill 2022

GAN Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol gael pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan Victoria Prentis AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) (Rhif 2) 2022 i fod yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthygl 41(3) o Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad Deddfwriaeth yr UE (Rheoliad (UE) 2016/2031), sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072 (y Rheoliad Amodau Ffytoiechydol) sy'n sefydlu amodau unfurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion.

Mae'r diwygiadau'n diwygio'r is-ddeddfwriaeth. Maen nhw'n diweddarar gofynion mewnfario i atal cyflwyno'r pla planhigion Thaumetopoea pityocampa ym Mhrydain Fawr drwy fewnfario organeb letyol y pla hwn: Cedrus Trew a Pinus L.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron y Senedd ar 28 Ebrill 2022 i ddod i rym ar 29 Ebrill 2022.

Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Rhoddodd Diwygiadau blaenorol i Amodau Phytoiechydol gywiriadau blaenorol gofynnol ar waith i'r drefn reoleiddio ar gyfer iechyd planhigion. Gwnaeth y rhain ehangu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru drwy roi swyddogaethau iddynt (yn eu capasiti fel 'Awdurdod Cymwys' i Gymru) heb fod yn rhan o'r broses. Bydd y Gweinidog am nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Diben y diwygiadau

Mae'r Rheoliadau'n diweddarau gofynion mewnforio ledled Prydain i gyfyngu ar ble y gellir mewnforio coed lletyol y pla *Thaumetopoea pityocampa*. Yn benodol, mae'r rheoliadau hyn yn dileu'r opsiwn i fewnforio planhigion lletyol y pla hwn ynghyd â datganiad swyddogol yn nodi eu bod wedi'u cynhyrchu mewn meithrinfeydd sydd wedi'u canfod yn rhydd o'r pla, ar sail arolygiadau ac arolygon swyddogol a gynhaliwyd ar adegau priodol. Nawr, mae'n rhaid mewnforio'r coed hyn o wlad neu ardal sydd wedi'i dynodi'n rhydd rhag plâu, neu o fan lle maen nhw wedi'u tyfu mewn amgylchedd sydd wedi'i selio'n llawn. Mae'r rheoliadau hefyd yn ehangu cwmpas y gofynion arbennig sy'n weddill ar gyfer mewnforio pob planhigyn (ac eithrio hadau) *Cedrus Trew* a *Pinus L* sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad, p'un a ydynt yn blanhigion ar gyfer plannu neu goed wedi'u torri a deiliach.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/id/uksi/2022/484>

Pam y rhoddwyd caniatâd

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd, hwylustod ac i ddiogelu bioddiogelwch drwy ddiweddarau gofynion mewnforio i liniaru'r risg o gyflwyno'r pla yn ddamweiniol. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi.